**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Rebecca Barrett
(Rhif Ffôn: 01443 864245 Ebost: barrerm@caerphilly.gov.uk)

**Dyddiad: Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2018**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Is-bwyllgor Tacsi a Chyffredinol** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor - Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Iau, 20fed Rhagfyr, 2018** am **10.00 am** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,

**Christina Harrhy**
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

**A G E N D A**

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

3 I dderbyn ac ystyried yr adroddiad canlynol sydd ym marn y Swyddog Priodol yn gallu cael ei drafod pan nad yw'r cyfarfod ar agor i'r cyhoedd ac i ystyried yn gyntaf os yw lles y cyhoedd yn golygu y dylai'r cyfarfod gael ei gau i'r cyhoedd ar gyfer ystyriaeth o'r eitem.

1 - 2

4 Trwyddedu Gyrwyr Cerbydau Hacni/Cerbydau Hurio Preifat.

3 - 58

**Cylchrediad:**
Cynghorwyr D.W.R. Preece (Cadeirydd), M. Davies a W. Williams

A Swyddogion Priodol

**SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**
Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu. Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.